

## HS5(B)

# Canllaw ar gyfer llenwi'r cofnod Ymchwiliad i Ddigwyddiad/Damwain ac Anaf HS5 (A)

### Cyflwyniad

Bwriad y nodiadau yma yw helpu i llenwi'r cofnod Ymchwiliad i Ddigwyddiad/Damwain ac Anaf - HS5(A)

Mae'r adroddiad yn galluogi gweithiwr cyflogedig i gyflwyno adroddiad am bob math o ddigwyddiadau neu ddamweiniau, gan gynnwys yr anafiadau mwyaf mân (neu rhai wedi'u hosgoi o drwch blewyn), anafiadau difrifol, damweiniau sy'n achosi absenoldeb, neu ddigwyddiadau peryglus.

Drwy roi gwybod yn effeithiol ac ymchwilio yn systematig, bydd y Cyngor yn gallu cyflawni'i ddyletswydd statudol, nodi proffiliau risg, arsylwi ar dueddiadau o ran anafiadau a darparu sail ar gyfer cynllunio mewn perthynas â diogelwch.

### Sut i llenwi'r Ffurflen Cofnod Ymchwilio i Ddigwyddiad neu Ddamwain ac Anaf

#### **Adran/Uwchadran**

Cofnodwch enw'r adran/uwchadran, e.e. Addysg a Dysgu Gydol Oes – Ysgolion.

#### **Adeilad/Safle**

Cofnodwch enw isadran yr adran lle mae'r person yn gweithio, e.e. enw'r ysgol, cartref i'r henoed, enw'r safle ayyb

### Rhan A:

Gan mai cofnod cyfreithiol y Cyngor yw'r adran yma, bydd angen copïau arnoch chi ar gyfer y canlynol:-

- (i) yr unigolyn;
- (ii) ffeil bersonél yr unigolyn;
- (iii) ffeil ddamweiniau'r Adran;
- (iv) yr adran adnoddau dynol.

Bwriad y rhan yma hefyd yw cadw hawl gweithiwr neu berson arall i gyflwyno adroddiad am ddigwyddiad neu ddamwain neu anaf. Gall y rhan yma gael ei llenwi gan yr unigolyn dan sylw, gan berson enwebedig, neu'r person sy'n derbyn yr adroddiad, e.e. dros y ffôn.

1. **Enw a chyfeiriad:** Cofnodwch enw a chyfeiriad llawn y person a gafodd ei effeithio yn y digwyddiad neu ddamwain. Mae'r rhan yma'n cael ei defnyddio i gofnodi rhif staff (os yw'n weithiwr), rhif ffôn y gwaith (os yw hynny'n berthnasol) a rhif ffôn cartref y person hwnnw.
2. **Oedran:** Cofnodwch oedran y person ar ei ben-blwydd neu'i phen-blwydd diwethaf.
3. **Rhyw:** Ticiwch y blwch priodol i nodi rhyw'r person.
4. **Swydd:** Cofnodwch swydd neu statws y person, e.e. athro, disgybl, myfyriwr, cynorthwy-ydd y cartref, preswylydd, paentiwr, plymwr, aelod o'r cyhoedd, cleient, ac ati.

5. **Adran neu Fan Gwaith:** Cofnodwch weithle neu swyddfa arferol y person dan sylw (os yw'n weithiwr).
6. **Dyddiad ac amser y digwyddiad:** Cofnodwch ddyddiad ac amser y ddamwain, e.e. 26.05.96 – 14:30.
7. **Dyddiad ac amser rhoi gwybod:** Cofnodwch ddyddiad ac amser rhoi gwybod, e.e. 27.05.96 – 09:00.

**Nodwch:** Dylid defnyddio system y cloc 24 awr wrth gofnodi'r amser.

8. **Disgrifiad byr o'r Digwyddiad/Damwain** Rhowch ddisgrifiad o'r Digwyddiad/Damwain yng ngeiriau'r person ei hun. Mae'r gweithiwr dan sylw â hawl gyfreithiol i ddisgrifio'r digwyddiad/damwain fel y gwelodd ef/hi (Deddf Nawdd Cymdeithasol 1975). Chaiff y rhan yma mo'i defnyddio i gofnodi ymchwiliad.
9. **Union safle'r digwyddiad/damwain:** Cofnodwch union leoliad y digwyddiad/damwain, e.e. yn yr ystafell ddosbarth ger y ffenestr, yn ystafell fyw cartref y cleient, cloddfa, y tu allan i fferyllfa Boots, ac ati.
10. **Enwau a chyfeiriadau tystion:** Cofnodwch enw a chyfeiriad unrhyw berson neu bersonau a welodd y digwyddiad neu ddamwain, neu a all ddarparu gwybodaeth yn ymwneud ag achos neu achosion y digwyddiad neu ddamwain. Lle bo'n briodol, rydyn ni'n argymhell y dylid cymryd datganiadau anffurfiol gan yr unigolion hynny sydd wedi'u henwi.
11. **Manylion yr Anaf:** Lle mae anaf wedi digwydd, cofnodwch y math o anaf, a rhan y corff a gafodd ei heffeithio, e.e. pen-glin chwith wedi'i chleisio, briw ar fys cyntaf y llaw chwith, ewin wedi'i hollti ar fys mawr y droed dde, llwch yn y llygad chwith. Nodyn: Dydy 'wedi brifo'i gefn' neu 'ergyd i'r pen' ddim yn ddigon manwl.  
  
Ar adegau, fydd maint neu ddifrifoldeb yr anaf ddim yn hysbys hyd nes y caiff cyngor meddygol ei ddarparu. Ar yr achlysuron yma, mae modd ychwanegu'r wybodaeth yn ddiweddarach.
12. **Y Cymorth Cyntaf a Roddwyd a chan Bwy:** Cofnodwch y driniaeth a ddarparodd y swyddog cymorth cyntaf cymwys (lle y bo'n berthnasol), e.e. cafodd y clwyfau eu harchwilio a'u glanhau; cafodd bys cyntaf y llaw dde ei rwymo, ac ati.
13. **Cwmpo o Uchder:** Gyda digwyddiadau neu ddamweiniau lle mae person wedi cwmpo o lefel sy'n uwch na lefel y ddaear, cofnodwch yr uchder mae'r person wedi cwmpo ohono. Dylech chi fesur o bwynt cyswllt y corff, h.y. y traed os oedd y person yn sefyll neu'r pengliniau os oedd yn penlinio, i'r ddaear neu i lefel y llawr lle glaniodd y person.
14. **I Bwy y Rhoddwyd yr Adroddiad:** Cofnodwch swydd neu statws y person a gafodd wybod am y ddamwain, e.e. goruchwyliwr, rheolwr llinell.
15. **Cofnodwch lofnod y person a gafodd anaf, neu berson enwebedig:** Dylai'r llofnod gael ei roi yn y rhan yma.
16. **Enw'r Person sy'n cofnodi'r manylion:** Cofnodwch enw'r person sy'n llenwi'r rhan yma.

## Rhan B:

### **Adroddiad gan Reolwr neu Oruchwyliwr**

Mae'r rhan yma'n galluogi'r Cyngor i gyflawni'i ddyletswydd statudol i ymchwilio i ddiwyddiadau/damweiniau sy'n cael eu hadrodd, a chanfod y rhesymau.

Drwy nodi gweithredoedd neu amodau anniogel, bydd modd i reolwyr gymryd camau adferol priodol i'w hatal rhag digwydd eto. Os yw'r ymchwiliad yn ymwneud â damwain y mae modd rhoi gwybod amdani hi, cyfeiriwch at Bolisi HS5 (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus – RIDDOR) a Chanllawiau Trefniadau Adrodd ar Ddamweiniau y Cyngor.

17. **Adroddiad ar yr archwiliad:** Cofnodwch fanylion yr archwiliad. Mae modd parhau'r rhan yma ar ddalen arall, a lle bo'n briodol, mae modd cynnwys darlun bras neu fanwl neu ffotograffau.
18. **Camau Gweithredu er mwyn atal digwyddiad/damwain arall tebyg:** Cofnodwch y camau gweithredu a gafodd eu cymryd yn seiliedig ar achosion y ddamwain a gafodd eu nodi yn ystod yr archwiliad.
19. **Pwy sy'n gyfrifol am weithredu'r camau?** Cofnodwch enw'r person sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff y camau unioni sydd wedi'u nodi yn Eitem 18 eu gweithredu a'u cyflawni.
20. **Peiriannau:** Ticiwch y blychau priodol i gofnodi a oedd peiriant yn rhan o'r digwyddiad neu ddamwain.  
  
(Diffiniad peiriant yn BS5304 yw 'offer ar gyfer rhoi pŵer sydd â rhannau sefydlog a symudol, a phob un â swyddogaeth bendant).
21. **Peiriannau - parhad:** Os oes tic yn y blwch cadarnhad – bydd yr enw a'r math o beiriant yn cael eu cofnodi yma, e.e. Smith bandsaw – rhif cyfresol 02364.
22. **Peiriannau - parhad:** Ticiwch y blwch priodol i gofnodi a oedd y peiriant yn symud ar adeg y digwyddiad neu ddamwain.
23. **Cyfarpar Diogelu:** Ticiwch y blwch priodol i gofnodi a gafodd cyfarpar diogelu ei roi i'r person a gafodd ei anafu.
24. **Cyfarpar Diogelu - parhad:** Os oes tic yn y blwch cadarnhad, cofnodwch fanylion y cyfarpar diogelu yma, e.e. bŵts Wellington, menig, gogls, helmedi diogelwch, ac ati.  
  
Mae diffiniad llawn o Gyfarpar Diogelu ym mholisi HS2 y Cyngor – Defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol (PPE).
25. **Beth ddigwyddodd i'r Person a Anafwyd?** Mae hyn yn ymwneud â'r hyn a ddigwyddodd i'r person a gafodd ei anafu yn syth ar ôl y digwyddiad. Atebwch yn briodol drwy roi llinell trwy'r ateb cadarnhaol neu negyddol.
26. **Oedd y gwaith wedi'i awdurdodi?** Ticiwch y blwch priodol i gofnodi a oedd y gwaith wedi'i awdurdodi.
27. **Nifer y Diwrnodau a Gollwyd:** Cofnodwch nifer y diwrnodau a gafodd eu colli  
  
Ar rai achlysuron, fydd yr wybodaeth yma ddim yn hysbys tan yn ddiweddarach.
- 28(a) **Oriau gwaith arferol:** Cofnodwch yr oriau y byddai disgwyl i'r person weithio ar ddiwrnod y digwyddiad neu ddamwain.
- 28(b) **Union amser stopiodd y sawl gafodd niwed weithio:** Cofnodwch union amser y gadawodd y person y gwaith ar ôl y digwyddiad neu ddamwain.
29. **Llofnod y Swyddog Ymchwilio:** Dylai'r person sy'n ymchwilio i'r digwyddiad neu ddamwain lofnodi'i enw yn y rhan yma. Rhaid cofnodi'r dyddiad hefyd
30. **Llofnod y Rheolwr neu Oruchwyliwr:** Cofnodwch enw rheolwr/goruchwyliwr y person a gafodd ei effeithio yn y digwyddiad/damwain. Rhaid cofnodi'r dyddiad hefyd

## **Adran C**

### **At Ddefnydd y Swyddfa'n Unig**

Mae'r adran yma ar gyfer defnydd yr unigolion hynny sydd â chyfrifoldeb am gynnal trefniadau'r Cyngor ar gyfer cofnodi digwyddiadau/damweiniau, a sicrhau bod yr asiantaethau allanol (e.e. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – AGID) wedi eu hysbysu.